

## EVANS, THEOPHILUS (1693 - 1767), hanesydd a llenor

**Enw:** Theophilus Evans  
**Dyddiad geni:** 1693  
**Dyddiad marw:** 1767  
**Prïod:** Alice Evans (née Bevan)  
**Plentyn:** Elinor Jones (née Evans)  
**Rhiant:** Charles Evans  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** hanesydd a llenor  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd  
**Awdur:** Enid Pierce Roberts

Bedyddiwyd yn eglwys plwyf Llandugwydd, 21 Chwefror 1693, mab Charles Evans, Penywenallt, ger Castellnewydd Emlyn, o'i ail wraig, ac ŵyr i Evan Griffith Evans, ' Capten Tory ' o fyddin Siarl I. Ni wyddys ymhle'r addysgwyd ef. Nid oes gofnod iddo fod yn ysgol ramadeg Amwythig na sicrwydd iddo fynychu ysgol ramadeg Caerfyrddin. Tybir na bu mewn prifysgol, canys yn 1714-6 yr oedd gartref ac yn Amwythig yn paratoi llyfrau i'r wasg. Urddwyd ef yn ddiakon, 14 Awst 1717, ac yn offeiriad 9 Tachwedd 1718, gan esgob Tyddewi, a chafodd guradiaethau Defynnog a Llanlleonfel yn sir Frycheiniog, dan **Moses Williams**. Ar 14 Awst 1722 cafodd ficeriaeth Llandyfrïog, ger Castellnewydd Emlyn. Ymddiswyddodd oddi yno 1728, a chael rheithoraeth Llanynys gyda Llanddulas, sir Frycheiniog. Ymddiswyddodd yn 1738 a chael bywoliaeth Llangamarch, gan gynnwys Llanwrtyd ac Abergwesyn. Gwnaethpwyd ef yn gaplan teulu i **Marmaduke Gwynne**, Garth, Brycheiniog, oddeutu'r un adeg. Yn 1739 ychwanegwyd Llanfaes, Aberhonddu, at ei fywiolaethau. Rhoddodd Llangamarch heibio i'w fab-yng-nghyfraith yn 1763, ond daliodd Lanfaes hyd ei farwolaeth, 11 Medi 1767. Claddwyd ef ym mynwent Llangamarch. Apwyntiwyd ' **Williams** Pantycelyn ' yn gurad iddo yn 1740, ond gan i Theophilus Evans wrthod tystysgrif iddo gael ei urddo'n offeiriad ymadawodd yn 1743.

Priododd, 1728, Alice, merch Morgan Bevan o'r Gelligaled ym Morgannwg. Bu iddynt bump o blant, tri mab a dwy ferch. Mab i un o'i ferched a Hugh Jones, rheithor Llywel ac yn ddiweddarach Llangamarch, oedd **Theophilus Jones**, awdur *History of Brecknockshire*. Dywedir mai Theophilus Evans a fu'n foddion i ddarganfod rhinweddau ffynhonnau Llanwrtyd drwy yfed y dŵr y dywedai pawb ei fod yn wenwyn, a'i wella'i hun o'r clafr, yn 1732.

Cyhoeddodd amryw lyfrau o natur hanesyddol a chrefyddol. Y mae dau amcan i'w canfod drwy ei holl waith - dyrchafu bonedd a hynafiaeth cenedl y Cymry, a dangos mai Protestaniaeth Eglwys Loegr yw'r wir ffydd Gristnogol. Ei weithiau mwyaf adnabyddus yw *Drych y Prif Oesoedd* , 1716, ail arg. 1740 , llyfr rhagfarnllyd ac anfeiriadol ond hynod ddifyr ar hanes bore Cymru, a *History of Modern Enthusiasm* , 1752, 2il arg. 1757, lle cais brofi mai Pabyddion cudd yw pawb sy'n troi eu cefnau ar Eglwys Loegr. Oherwydd ei arddull sionc, gyfoethog o ddywediadau bachog a chymariaethau trawiadol, edrychir ar y *Drych* fel un o glasuron rhyddiaith Gymraeg.

### Awdur

**Dr Enid Pierce Roberts**

### Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

S. J. Evans (gol.), *Drych y Prif Oesoedd* (Bangor 1902)

R. T. Jenkins, *Yr ApÂ@l at Hanes ac Ysgrifau eraill* (1930)

Theophilus Jones, Edwin Davies, Joseph Russell Bailey, *History of the County of Brecknock*, ii, 246-8

T. Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (1944), 204-5, 226-7

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Theophilus Evans**

### Gweithiau

Theophilus Evans, *Drych y prif oesoedd yn ddwy ran*(Mwythig 1716)

Theophilus Evans, *Llwybr hyffordd y plentyn bach i fywyd tragywyddol*(Mwythig 1715?)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 235823332

Wikidata: Q3403131

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/



Roberts, E. P., (1953). EVANS, THEOPHILUS (1693 - 1767), hanesydd a llenor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-THE-1693>



Preifatrwydd a Chwcis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu



LLYFRGEL  
THE NATION



Modeld gan:  
Llywodraeth Cymru  
Developed by:  
Welsh Government